

# Taflen trefnu hawl i holi.

## Beth fyddwch chi ei angen:

- Mynediad i wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cliciwch **yma** i weld y dudalen we er mwyn dod o hyd i'ch Aelod Cynulliad.
- Ystafell briodol er mwyn cynnal y digwyddiad Hawl i Holi - lle ar gyfer cynulleidfa, byrddau a chadeiriau i'r rhai sydd ar y panel a meicroffonau.
- Platiau enw'r panelwyr - I gynnwys enw a theitl y panelwr ac etholaeth/rhanbarth sydd yn cael ei gynrychioli. Lliw papur yn dibynnu ar ba blaid wleidyddol sydd yn cael ei chynrychioli - e.e. coch i banelwr o'r Blaid Lafur, glas i banelwr o'r Ceidwadwyr ac ati.
- Copi o'r cwestiynau wedi'u coladu.
- Amserydd wy/stopwatsh

## Trefnu

Unwaith rydych wedi penderfynu pa ACau y byddech yn hoffi eu gwahodd i'r digwyddiad Hawl i Holi, ewch ati i gysylltu â nhw.

Wrth eu gwahodd, cofiwch sôn am y canlynol:

- Pwy ydych chi
- Pam eich bod yn trefnu'r digwyddiad - cyd-fynd â'r bathodyn Her Democratiaeth.
- Lle rydych chi.
- Pa ddyddiad ac amser rydych yn bwriadu cynnal y digwyddiad.

Unwaith bydd y panelwyr wedi cadarnhau eu presenoldeb, bydd angen paratoi'r cwestiynau.

Gofynnwch i bob un o'r Sgowtiaid Fforio feddwl am un cwestiwn y bydden nhw'n hoffi ei ofyn yn ystod y digwyddiad hawl i holi. Ewch ati i gynnal trafodaeth ar ba faterion byddai'r Sgowtiaid Fforio yn dymuno eu trafod, pethau sydd yn effeithio ar eu bywydau nhw.

Unwaith mae'r cwestiynau wedi'u hysgrifennu, ysgrifennwch nhw, ac os ydych yn dymuno, anfonwch nhw i'r panelwyr. (Dibynnu a ydych chi eisiau i'r panelwyr gael gwybod y cwestiynau o flaen llaw)

Penodwch unigolyn i gadeirio'r digwyddiad Hawl i Holi - bydd y cadeirydd yn gyfrifol am egluro beth fydd yn digwydd ac am sicrhau bod y panelwyr yn glynu at yr amser gofynnol o 1 munud i ateb bob cwestiwn yn defnyddio'r amserydd wy/stopwatsh.



## Ar y diwrnod

Sicrhewch fod yr ystafell wedi'i gosod gyda chadair a bwrdd gyda phlât enw i bob panelwr.

Sicrhewch fod meicroffonau ar gael i'r panelwyr a meicroffon i'r unigolion sydd yn gofyn cwestiynau (gall un unigolyn fod yn gyfrifol am fynd o gwmpas gyda'r meicroffon yma)

Arweinydd i groesawu'r panelwyr a'r gynulleidfa i'r digwyddiad cyn trosglwyddo i'r cadeirydd.

Y Cadeirydd i ofyn i bob panelwr gyflwyno'i hun ac yna egluro beth fydd yn digwydd cyn bod y person cyntaf yn gofyn cwestiwn. Mae'n rhaid i bob panelwr ateb eu cwestiwn o fewn 1 munud.

Ar y diwedd, sicrhewch eich bod yn diolch i'r panelwyr am gymryd rhan a diolch i'r gynulleidfa am wrando ac am y cwestiynau.

